Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU | WALES Air Ambulance Charity




# A gift in your **Will**

*Let your **gift** be part of our **future***

**Registered Charity Number:** 1083645

# *Help* us to fly into the **future**

## Wales Air Ambulance delivers lifesaving, advanced medical care to people across Wales, whenever and wherever they need it. With bases across the country, we operate some of the most advanced air ambulances in the UK, saving precious time and lives – all thanks to the people of Wales.

Our on-board consultants and critical care practitioners are highly skilled and carry some of the most pioneering medical equipment in the world. They can deliver blood transfusions, administer anaesthesia and undertake emergency operations at the scene of the incident, before flying the patient directly to specialist care.

We are on standby **24 hours a day**, **365 days a year** and are determined to improve the lives of patients and their families by being a world leader in advanced, time-critical care.

We hope that you will consider **leaving a gift in your Will to our Charity.**

## Gifts in Wills are a vital source of income for us and have funded one of our four helicopters in the last twelve months.

We hope that after providing for your loved ones, you will also think of us. Every gift, big or small, **makes a difference.** We rely entirely on your charitable donations to keep our helicopters in the air and rapid response vehicles on the road across Wales.

*If you decide to leave us a gift in your Will, we promise to use it considerately and effectively, ensuring that your **legacy lives on.***



# *Richard's story*

## When someone suffers catastrophic injuries, early critical care intervention is vital.

Richard Jones was travelling to work when his life changed in a split second. Richard hit the crash barrier, flinging his vehicle into the air and into a large sign and poles, leaving him with life-changing injuries.

Wales Air Ambulance flew to the scene. Upon arrival, Dr Bob Tipping and Critical Care Practitioner Marc Allen spotted signs of internal bleeding.

Richard received six units of blood products in total, administered by our medics at the roadside. Due to the severity of his injuries, they also gave him a general anaesthetic and put him onto a ventilator to control his breathing.




Richard was then flown to the nearest specialist centre for limb injuries, where he underwent a partial amputation of his right leg.

***Richard said***: **"I've always heard stories about all the amazing things the Wales Air Ambulance did. However, I never really thought about the service before and never thought I'd end up needing their assistance."**

"Physically, I'm doing well. Mentally, I have the odd day when everything gets on top of me, when I'm a bit down in the dumps.

"Before the accident I was 100 miles per hour, **now I'm getting used to the new way of life.**"



"Richard's story demonstrates the importance of the Charity bringing the emergency department to the patient. **It is heart-warming to hear that Richard is positive and has become a father."**

***Jo Yeoman, Patient Liaison Nurse***



# *Make a will for* ***free***

## Our free Will writing partners make the process of writing a Will as simple as possible.

### *Octopus Legacy*

Octopus Legacy offers a simple online process to make planning and writing your Will a positive experience. Just follow the easy step-by-step guide, provide your details, and wishes, and that's it.

Your Will is checked by an in-house expert, then sent back to you to print, along with instructions on how to make your Will legally binding.

Make your Will online here - **will.octopuslegacy.com/WalesAA**

### *National Free Wills Network*

The National Free Wills Network is a free Will writing service using local solicitors. You are referred by us and will then receive a pack in the post with all the information you need. Simply choose a solicitor, make an appointment to see them and make your Will.

If your Will is more complicated, you may be asked to pay an additional cost. Your solicitor will discuss this with you before writing your Will.

To be referred to the National Free Wills Network,
**please email** legacy@walesairambulance.com

# *Why should I write a Will?*

An up-to-date Will is the only way to ensure that your wishes are carried out and that loved ones and causes that are important to you benefit from your Will. Otherwise, the government can decide how your estate is divided.

It is important to remember when writing your Will that it may need to be updated if your circumstances change.

### *What are the different types of gifts I can leave a charity?*

There are three main ways to leave a gift to us:

1. A specific legacy, which is a particular item, such as piece of jewellery or shares.

2. A residuary legacy is what remains once all gifts have been handed out. You can leave a share of what is left or the whole amount.

3. A pecuniary legacy is when you leave a set amount of money.

### *What if I can only leave a small gift?*

Every gift is appreciated, big or small they all add up to making a difference when the people of Wales need our help.







# *Contact Us*

If you have any questions about including a gift in your Will or want to find out more, please get in touch:

**Wales Air Ambulance**
Tŷ Elusen
Ffordd Angel
Llanelli Gate
Dafen
Llanelli
SA14 8LQ

0300 0152 999
legacy@walesairambulance.com

**Find us online:**
walesairambulance.com/giftsinwills

**SCAN ME**

*You can help your community by leaving a gift in your Will. Thank you for making a difference.*

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

# *Cysylltwch â ni*

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am adael rhodd yn eich Ewyllys neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Ambiwlans Awyr Cymru**
Ty Elusen
Ffordd Angel
Llanelli Gate
Dafen
Llanelli
SA14 8LQ

0300 0152 999
legacy@walesairambulance.com

**Gallwch ddod o hyd i ni ar-lein:**
www.ambiwlansawyrcymru.com/rhoddionmewnewyllysiau

SGANIWCH FI

*Gallwch helpu eich cymuned drwy adael rhodd yn eich Ewyllys. Rydym yn bodoli ar eich cyfer chi ac o'ch herwydd chi. Diolch am wneud gwahaniaeth.*

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

# Pam y dylwn i ysgrifennu Ewyllys?

Cael Ewyllys cyfredol yw'r unig ffordd o sicrhau bod eich dymuniadau yn cael eu cyflawni a bod eich anwyliaid a'r achosion sy'n bwysig i chi yn cael budd o'ch Ewyllys. Fel arall, gall y llywodraeth benderfynu sut y rhennir eich ystâd.

Mae'n bwysig cofio, wrth ysgrifennu eich Ewyllys, y bydd angen, o bosibl, ei ddiweddaru os bydd eich amgylchiadau'n newid.

### *Beth yw'r gwahanol fathau o roddion y gallaf eu gadael i Elusen?*

Mae tair prif ffordd o adael rhodd i ni:

1. Cymynrodd benodol, sef eitem benodol, fel darn o emwaith neu gyfranddaliadau.
2. Cymynrodd gweddilliol sef yr hyn sy'n weddill ar ôl i'r holl roddion gael eu rhannu. Gallwch adael rhan o'r hyn sy'n weddill neu'r swm cyfan
3. Cymynrodd ariannol, pan fyddwch yn gadael swm penodol o arian.

### *Beth os mai dim ond rhodd fechan y gallaf ei gadael?*

Rydym yn gwerthfawrogi pob rhodd, yn fawr neu'n fach, ac mae pob un yn ein galluogi i wneud gwahaniaeth pan fydd angen ein help ar bobl Cymru.





# Gwnewch Ewyllys am **ddim**

## Mae ein partneriaid ysgrifennu Ewyllysiau am ddim yn gwneud y broses o ysgrifennu Ewyllys mor hawdd â phosibl.

### *Octopus Legacy*

Mae Octopus Legacy yn cynnig proses ar-lein syml er mwyn gwneud cynllunio ac ysgrifennu eich Ewyllys yn brofiad cadarnhaol. Dilynwch y canllaw cam wrth gam syml, darparwch eich manylion a'ch dymuniadau, a dyna ni.

Caiff eich Ewyllys ei wirio gan arbenigwr mewnol, ac yna ei anfon yn ôl atoch i'w argraffu, ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i wneud eich Ewyllys yn gyfreithiol-rwymol.

Gwnewch eich ewyllys ar-lein yma- **will.octopuslegacy.com/WalesAA**

### *Rhwydwaith Cenedlaethol Ewyllysiau am Ddim*

Gwasanaeth ysgrifennu Ewyllys am ddim yw Rhwydwaith Cenedlaethol Ewyllysiau am Ddim, sy'n defnyddio cyfreithwyr lleol. Cewch eich atgyfeirio gennym ni ac yna byddwch yn cael pecyn yn y post gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Dewiswch gyfreithiwr, trefnwch apwyntiad ac ysgrifennwch eich Ewyllys.

Os bydd eich Ewyllys yn gymhleth, efallai y gofynnir i chi dalu cost ychwanegol. Bydd eich cyfreithiwr yn trafod hyn gyda chi cyn ysgrifennu eich Ewyllys.

I gael eich atgyfeirio at y Rhwydwaith Cenedlaethol Ewyllysiau am Ddim, **cysylltwch** â **legacy@walesairambulance.com**

“Mae stori Richard yn dangos pa mor bwysig yw hi fod Ambiwlans Awyr Cymru yn dod â’r adran achosion brys at y claf. **Mae’n galonogol clywed bod Richard yn teimlo’n gadarnhaol a bellach yn dad.”**

***Dywedodd Jo Yeoman, Nyrs Cyswllt Cleifion***



# Stori Richard

## Mae ymyrraeth gofal critigol cynnar yn hollbwysig pan fydd rhywun yn dioddef anafiadau trychinebus.

Roedd Richard Jones yn teithio i'w waith pan newidiodd ei fywyd mewn eiliad. Tarodd Richard y rhwystr diogelwch a achosodd i'w gerbyd hedfan i'r awyr a tharo arwydd mawr a pholion, gan achosi anafiadau a newidiodd ei fywyd.

Hedfanodd Ambiwlans Awyr Cymru i leoliad y ddamwain. Sylweddolodd Dr Bob Tipping a Marc Allen, Ymarferydd Gofal Critigol, ar arwyddion bod Richard yn gwaedu'n fewnol.

Cafodd Richard chwe uned o gynnyrch gwaed i gyd, a roddwyd iddo gan ein meddygon ar ochr y ffordd. Gan fod ei anafiadau mor ddifrifol, gwnaethant roi anesthetig cyffredinol iddo hefyd a'i roi ar beiriant anadlu er mwyn rheoli ei anadlu.




Cafodd Richard ei hedfan i'r ganolfan arbenigol agosaf ar gyfer anafiadau i goesau lle bu'n rhaid torri rhan o'i goes dde i ffwrdd.

***Dywedodd Richard:*** "Rwyf wedi clywed straeon am y pethau anhygoel roedd **Ambiwlans Awyr Cymru yn eu gwneud.** Ond doeddwn i erioed wedi meddwl rhyw lawer am y gwasanaeth o'r blaen a feddyliais i byth y byddai angen ei help arna i."

"Yn gorfforol, rwy'n gwneud yn dda. Yn feddyliol, byddaf yn teimlo bod popeth yn fy llethu ambell ddiwrnod, pan fydda i'n teimlo braidd yn isel.

Cyn y ddamwain, roeddwn i ar garlam drwy'r amser, **ond rwy'n dod i arfer â ffordd newydd o fyw nawr."**



**Mae rhoddion mewn Ewyllysiau yn ffynhonnell allweddol o incwm i ni ac maent wedi ariannu un o'n pedwar hofrennydd yn y 12 mis diwethaf. Rydych yn ein galluogi i achub bywydau, helpu pobl Cymru pan fydd arnynt ein hangen fwyaf, ac yn sicrhau dyfodol iddynt drwy adael rhodd i'n Helusen.**

Rydym yn gobeithio, ar ôl gofalu am eich anwyliaid, y byddwch yn meddwl amdanom ni hefyd. Mae pob rhodd, yn fawr neu'n fach, **yn gwneud gwahaniaeth.** Rydym yn dibynnu'n gyfan gwbl ar eich rhoddion elusennol i gadw'r hofrenyddion yn yr awyr a'r cerbydau ymateb cyflym ar y ffyrdd ledled Cymru.

*Os byddwch yn penderfynu gadael rhodd i ni yn eich Ewyllys, rydym yn addo y byddwn yn ei ddefnyddio'n ystyriol ac yn effeithiol gan sicrhau bod eich **gwaddol yn parhau.***



# *Helpwch* ni i hedfan i'r **dyfodol**

**Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn darparu gofal meddygol uwch sy'n achub bywydau i bobl ledled Cymru, pryd bynnag a ble bynnag y bydd ei angen arnynt. Gyda safleoedd ledled Cymru, rydym yn gweithredu rhai o'r ambiwlansys awyr mwyaf blaenllaw yn y DU, gan arbed amser gwerthfawr ac achub bywydau - diolch i bobl Cymru**

Mae ein meddygon ymgynghorol a'r ymarferwyr gofal critigol yn fedrus iawn, ac yn cario rhai o'r offer meddygol mwyaf arloesol yn y byd. Mae ganddynt y gallu i drallwyso gwaed, rhoi anesthesia a chynnal llawdriniaethau brys ar safle'r digwyddiad, cyn hedfan y claf yn uniongyrchol i gael gofal arbenigol.

Rydym ar ddyletswydd **24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn** ac yn benderfynol o wella bywydau cleifion a'u teuluoedd drwy fod yn arweinydd byd ym maes gofal uwch pan fo amser yn brin.

Rydym ni'n gobeithio y byddwch chi'n ystyried **gadael rhodd i'n Helusen ni yn eich Ewyllys.**




Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU | WALES Air Ambulance Charity

# Rhodd yn eich **Ewyllys**

*Gadewch i'ch **rhodd** fod yn rhan o'n **dyfodol***

**Rhif Elusen Gofrestredig:** 1083645